# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020

Amser: 09.30 - 10.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6474

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Lucy Valsamidis (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3B

### 2.1 pNeg(5)36 - Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

### 2.2 pNeg(5)37 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

### 2.3 pNeg(5)38 - Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

### 2.4 pNeg(5)39 - Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol gael ei chymhwyso.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)645 - Rheoliadau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.2 SL(5)646 – Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau a drafodwyd yn flaenorol ar gyfer sifftio ac sydd bellach yn destun gwaith craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 4.1 SL(5)650 – Rheoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

## 5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 5.1 SL(5)643 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.2 SL(5)647 – Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 5.3 SL(5)648 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.4 SL(5)651 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.5 SL(5)652 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.6 SL(5)649 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.7 SL(5)653 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 6.1 SL(5)636 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 6.17 SL(5)638 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 6.3 SL(5)641 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i'w drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(5)199 – Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 7.2 WS-30C(5)201 – Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau cysylltiedig, yn benodol bod anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad.

### 7.3 WS-30C(5)202 – Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 7.4 WS-30C(5)203 – Rheoliadau Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 8.2 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol - Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a chytunodd i gyfeirio at y llythyr a'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn ei lythyr at y Llywydd ynghylch dull Llywodraeth Cymru o ran SICMs (fel y cytunwyd yn y cyfarfod ar 9 Tachwedd 2020).

### 8.3 Llythyr gan y Prif Weinidog: Craffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog a bod y Protocol diwygiedig mewn perthynas â chraffu ar reoliadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd bellach mewn grym.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 10 Bil Marchnad Fewnol y DU: Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Bil Marchnad Fewnol y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## 11 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Diweddariad

Nododd y Pwyllgor y diweddariad mewn perthynas â chraffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y DU: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ddrafft diwygiedig o'i adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Marchnad Fewnol y DU, a chytunodd i drafod drafft terfynol cyn ei osod erbyn y terfyn amser gofynnol.